

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Ffyrdd Ymuno ac Ymadael rhwng
Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr),
Caergybi, Ynys Môn a Chyffordd
11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt),
Bangor, Gwynedd) (Gwahardd
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr
Dros Dro) 2018

The A55 Trunk Road (Slip Roads
between Junction 2 (Tŷ Mawr
Interchange), Holyhead, Anglesey
& Junction 11 (Llys y Gwynt
Interchange), Bangor, Gwynedd)
(Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)
Order 2018

Gwnaed 8 Mehefin 2018

Made 8 June 2018

Yn dod i rym 18 Mehefin 2018

Coming into force 18 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi a Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A55 London to Holyhead Trunk Road and A55 Chester to Bangor Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael rhwng Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Caergybi, Ynys Môn a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 18 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Slip Roads between Junction 2 (Ty Mawr Interchange), Holyhead, Anglesey & Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2018 and it comes into force on 18 June 2018.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weiniogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now conferred upon the Welsh Ministers in relation to Wales.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi a Chefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 10:00 o’r gloch ar 18 Mehefin 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwysio

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

8 Mehefin 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

2.—(1) In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A55 London to Holyhead Trunk Road and the A55 Chester to Bangor Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 10:00 hours on 18 June 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride or cause to be ridden, any pedal cycle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

8 June 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y cefnffyrdd wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar), Cyffordd 5 (Cyfnewidfa yr A4080/Treban), Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant), Cyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du), Cyffordd 8 (Ael-y-Bowl), Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) a Chyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

Y darnau cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7A (Cyffordd Gorllewin Llanfairpwll), y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Cyffordd yr A5/Pont Britannia) a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

SCHEDULE

The entire lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads of the trunk roads at Junction 2 (Ty Mawr Interchange), Junction 3 (Pencaledog Interchange), Junction 4 (Dalar Interchange), Junction 5 (A4080/Treban Interchange), Junction 6 (Nant Turnpike Interchange), Junction 7 (Cefn Du Interchange), Junction 8 (Ael y Bowl), Junction 9 (Treborth Interchange) and Junction 10 (Caernarfon Road Interchange).

The entire lengths of the westbound exit slip road at Junction 7A (Llanfairpwll West Junction), eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 8A (A5/Britannia Bridge Interchange) and eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(FFYRDD YMUNO AC YMADAEL RHWNG
CYFFORDD 2 (CYFNEWIDFA TŶ MAWR),
CAERGYBI, YNYS MÔN A CHYFFORDD 11
(CYFNEWIDFA LLYS Y GWYNT), BANGOR,
GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU,
BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Caergybi, Ynys Môn a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffyrdd 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 a'r darnau cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7A, y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymadael â'r A55 wrth y cyffyrdd hyn barhau hyd at y gyffordd nesaf, ymadael a dychwelyd ar yr A55 tua'r gorllewin er mwyn ymadael yn y lleoliad priodol: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth y cyffyrdd hyn (ac eithrio cyffordd 8A) ymuno â'r gerbyttffordd tua'r gorllewin, mynd at y gyffordd nesaf, ymadael a dychwelyd ar yr A55 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 8A fydd mynd ar yr A5 tua'r dwyrain, tua'r gogledd-orllewin ar Ffordd Pentraeth a thua'r de-orllewin ar yr A5025 i Gyffordd 8.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ac sy'n dymuno gadael yr A55 wrth Gyffordd 8A barhau hyd at Gyffordd 8 a dilyn yr A5025, Ffordd Pentraeth a'r A5.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 18 Mehefin 2018 ac yn gweithredu yn ysbeidiol dros nos yn bennaf (19:00 – 07:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Efallai y bydd angen cau'r ffyrdd yn ystod y dydd ond gwneir hyn cyn lleied â phosibl. Codir

**THE A55 TRUNK ROAD (SLIP ROADS
BETWEEN JUNCTION 2 (TŶ MAWR
INTERCHANGE), HOLYHEAD, ANGLESEY &
JUNCTION 11 (LLYS Y GWYNT
INTERCHANGE), BANGOR, GWYNEDD)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES,
CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange), Holyhead, Anglesey and Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the entire lengths of the A55 eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junctions 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 and the entire lengths of the westbound exit slip road at Junction 7A, eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 8A and eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 11.

Eastbound traffic wishing to leave the A55 at these junctions should continue to the next junction, exit and return on the westbound A55 to leave at the required location: vice versa for westbound traffic.

Eastbound traffic wishing to join the A55 at these junctions (except Junction 8A) should join the westbound carriageway, proceed to the next junction, exit and return on the eastbound A55: vice versa for westbound traffic.

The alternative route for eastbound traffic wishing to join the A55 at Junction 8A is via the eastbound A5, north-westbound Pentraeth Road and south-westbound A5025 to Junction 8.

Westbound traffic wishing to leave the A55 at Junction 8A should continue to Junction 8 and follow the A5025, Pentraeth Road and A5.

The prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force on 18 June 2018 and operate intermittently mostly overnight (19:00 – 07:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Some daytime closures may be required but these will be kept to a minimum. All closures will be signed in

arwyddion ymlaen llaw ynghylch cau pob ffordd a rhagwelir mai un slipffordd yn unig fydd ar gau ar unrhyw adeg.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

advance and it is anticipated that only one slip road will be closed at a time.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government